

Summary | Newport City Council | NOLB Bettws Project Fund 2026

What

The No One Left Behind (NOLB) Bettws Project Fund supports Newport City Council's commitment to reducing poverty, inequality and exclusion through early intervention, prevention and place-based action.

The fund has been shaped directly by feedback from Bettws residents and young people, addressing key priorities such as affordable positive activities, improved wellbeing, support with financial pressures, safer and cleaner spaces, and stronger community connections.

The fund supports voluntary, community and social enterprise (VCSE) organisations delivering accessible, community-focused interventions that:

- Address local resident priorities
- Deliver measurable benefits for Bettws residents
- Support NOLB principles and create sustainable positive outcomes

Funding Available

- **Minimum grant:** £1,000
- **Standard maximum grant:** £30,000
- **Applications above £30,000:** Exceptional circumstances only. Applications must demonstrate:
 - Exceptional local need
 - High-impact outcomes and value that cannot be achieved at a lower cost
 - Strong organisational capacity
 - Multiple partner collaboration

Who

Applicants must:

- Be an eligible voluntary, community or social enterprise (VCSE) organisation with appropriate governance and financial arrangements.
- Deliver projects that operate in Bettws or directly benefit Bettws residents.
- Respond to at least one intervention area, referencing relevant resident challenges or recommendations.
- Offer activity that is accessible, inclusive and affordable.
- Provide new activity or clear additional value, avoiding unnecessary duplication.
- Have appropriate safeguarding, data protection (GDPR), insurance, health and safety, and financial controls in place.
- Be able to monitor participation, outcomes, expenditure and community impact.

Application Support

All applicants can access support to navigate the whatimpact.com application platform online or face-to-face at the local community centre. Additional support for governance, financial management and organisational setup is available via the NOLB Lead.

Collaboration Rules

Organisations are encouraged to collaborate to meet the minimum threshold (£1,000) or deliver larger projects (£30,000+). Collaborative bids must:

- Identify a lead partner responsible for finance and reporting
- Provide a clear partnership agreement
- Demonstrate added value and align all activity with overall project outcomes

🔑 Intervention Areas

Projects must align with at least one of the five intervention areas:

1 Children, Young People, Safety and Positive Opportunities

Addressing lack of affordable activities, youth provision and unsafe spaces by increasing safe participation, improving skills and offering diversionary activity.

2 Wellbeing, Mental Health, Families and Social Connection

Reducing loneliness and improving physical and emotional wellbeing through peer support, fitness, hobby groups and family activities.

3 Skills, Learning, Employability and Financial Resilience

Tackling poverty and cost-of-living pressures via adult learning, digital skills, CV support, budgeting and debt advice.

4 Environment, Green Spaces, Community Safety and Pride

Improving neglected green spaces, tackling litter and boosting resident pride through clean-ups, gardening and environmental education.

5 Community Facilities, Access, Advice and Local Communication

Strengthening community hubs, advice services, local connectors and venue accessibility to reduce barriers to participation.

🔑 How & Evaluation

Application & Delivery Process

- Applications are managed via the whatimpact.com platform.
- Applicants must submit clear project plans, eligibility credentials and budgeting details.

🔍 Evaluation & Scoring Framework

Applications are assessed across five criteria on a scale of 1 to 5 (1 = Does not meet, 2 = Partially meets, 3 = Meets, 4 = Exceeds, 5 = Strongly exceeds):

- Reach / Beneficiaries (1-5)
- Sustainability / Longevity of Impact (1-5)
- Cost / Value (1-5)
- Credible Plan (1-5)
- Ability to Deliver (1-5)



Looking Forward

All funded projects will report progress, financial expenditure, participant feedback and measurable outcomes through the whatimpact.com platform. Reporting will emphasise meaningful community change, partnership activity and progress toward long-term sustainability.

Crynodeb | Cyngor Dinas Casnewydd | Cronfa Prosiect Gadael Neb Ar Ôl Betws 2026

Beth

Mae Cronfa Prosiect Gadael Neb Ar Ôl Betws yn cefnogi ymrwymiad Cyngor Dinas Casnewydd i leihau tlodi, anghydraddoldeb ac allgáu drwy ymyrraeth gynnar, atal a gweithredu'n lleol.

Lluniwyd y gronfa yn uniongyrchol gan adborth gan drigolion a phobl ifanc Betws, gan fynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol fel gweithgareddau cadarnhaol fforddiadwy, gwell lles, cymorth gyda phwysau ariannol, manau mwy diogel a glanach, a chysylltiadau cymunedol cryfach.

Mae'r gronfa'n cefnogi mudiadau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol (VCSE) sy'n darparu ymyriadau hygyrch, sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac yn:

- Mynd i'r afael â blaenoriaethau trigolion lleol
- Darparu buddion mesuradwy i drigolion Betws
- Cefnogi egwyddorion y gronfa a chreu canlyniadau cadarnhaol cynaliadwy

Y cyllid sydd ar gael

- **Isafswm grant:** £1,000
- **Uchafswm grant safonol:** £30,000
- **Ceisiadau dros £30,000:** Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol. Rhaid i geisiadau ddangos:
 - Angen lleol eithriadol
 - Canlyniadau effaith uchel a gwerth na ellir eu cyflawni am gost is
 - Capasiti sefydliadol cryf
 - Cydweithio â nifer o bartneriaid

Pwy

Rhaid i ymgeiswyr:

- Fod yn fudiad gwirfoddol, cymunedol neu fenter gymdeithasol (VCSE) cymwys gyda threfniadau llywodraethu ac ariannol priodol.
- Cyflawni prosiectau sy'n gweithredu ym Metws neu sydd o fudd uniongyrchol i drigolion Betws.
- Ymateb i un maes ymyrraeth o leiaf, gan gyfeirio at heriau neu argymhellion preswylwyr perthnasol.
- Cynnig gweithgaredd sy'n hygyrch, yn gynhwysol ac yn fforddiadwy.
- Darparu gweithgaredd newydd neu werth ychwanegol clir, gan osgoi dyblygu gwaith yn ddiangen.
- Bod â rheolaethau diogelu, diogelu data (GDPR), yswiriant, iechyd a diogelwch, a rheolaethau ariannol priodol ar waith.
- Bod yn gallu monitro cyfranogiad, canlyniadau, gwariant ac effaith cymunedol.

Cymorth wrth gyflwyno eich cais

Gall pob ymgeisydd gael cymorth i lywio'r platform ymgeisio whatimpact.com ar-lein neu wyneb yn wyneb yn y ganolfan gymunedol leol. Mae cymorth ychwanegol o ran llywodraethu, rheolaeth ariannol a chydysoddiad sefydliadol ar gael drwy gysylltu ag Arweinydd y gronfa.

Rheolau Cydweithio

Anogir sefydliadau i gydweithio i gyrraedd yr isafswm (£1,000) neu gyflawni prosiectau mwy (£30,000+). Rhaid i geisiadau cydweithredol:

- Nodi partner arweiniol sy'n gyfrifol am gyllid ac adrodd
- Darparu cytundeb partneriaeth clir
- Dangos gwerth ychwanegol ac alinio'r holl weithgarwch â chanlyniadau cyffredinol y prosiect

🔑 Meysydd Ymyrraeth

Rhaid i brosiectau gyd-fynd ag un o'r pum maes ymyrraeth o leiaf:

1 Plant, Pobl Ifanc, Diogelwch a Chyfleoedd Cadarnhaol

Mynd i'r afael â diffyg gweithgareddau fforddiadwy, darpariaeth ieuencid a mannau anniogel drwy gynyddu cyfranogiad diogel, gwella sgiliau a chynnig gweithgarwch dargyfeiriol.

2 Lles, Iechyd Meddwl, Teuluoedd a Chysylltiad Cymdeithasol

Lleihau unigrwydd a gwella lles corfforol ac emosiynol trwy gefnogaeth gan gymheiriaid, ffitrwydd, grwpiau hobi a gweithgareddau teuluol.

3 Sgiliau, Dysgu, Cyflogadwyedd a Gwydnwch Ariannol

Mynd i'r afael â thlodi a phwysau costau byw trwy ddysgu oedolion, sgiliau digidol, cymorth CV, cyllidebu a chynghor ar ddyledion.

4 Amgylchedd, Mannau Gwyrdd, Diogelwch Cymunedol a Balchder

Gwella mannau gwyrdd sydd wedi'u hesgeuluso, mynd i'r afael â sbwriel a hybu balchder trigolion drwy lanhau, garddio ac addysg amgylcheddol.

5 Cyfleusterau Cymunedol, Mynediad, Cyngor a Chyfathrebu Lleol

Cryfhau hybiau cymunedol, gwasanaethau cynghori, cysylltwyr lleol a hygyrchedd lleoliadau i leihau rhwystrau rhag cymryd rhan.

🔑 Sut a Gwerthuso

Y Broses Ymgeisio a Chyflenwi

- Mae ceisiadau'n cael eu rheoli trwy blatfform whatimpact.com.
- Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno cynlluniau prosiect clir, manylion cymhwysedd a manylion cyllidebu.

🔍 Fframwaith Gwerthuso a Sgorio

Asesir ceisiadau yn erbyn pum maen prawf o 1 i 5 (1 = Anfoddhaol, 2 = Bodloni'n rhannol, 3 = Boddhaol, 4 = Rhagorol, 5 = Rhagorol iawn):

- Cyrhaeddiad / Buddiolwyr (1-5)
- Cynaliadwyedd / Effaith Hirbarhaol (1-5)
- Cost / Gwerth (1-5)
- Cynllun Credadwy (1-5)
- Gallu i Gyflwyno (1-5)

Edrych Ymlaen

Bydd pob prosiect a ariennir yn adrodd ar gynnydd, gwariant ariannol, adborth gan gyfranogwyr a chanlyniadau mesuradwy trwy blatfform whatimpact.com. Bydd yr adrodd yn pwysleisio newid cymunedol ystyrlon, gweithgarwch mewn partneriaeth a chynnydd tuag at gynaliadwyedd hirdymor.